

Golygydd Creadigol Cyhoeddiadau Barddas

Lleoliad: Gweithio o adre, ac yn debyg y bydd teithio o amgylch Cymru o bryd i'w gilydd.

Cyfllog: rhwng £27,668 a £31,601 y flwyddyn pro-rata yn ddibynnol ar brofiad.

Oriau: Rhan Amser - 21 awr yr wythnos – i'w weithio yn ôl dymuniad yr ymgeisydd.

Cytundeb cyflogedig parhaol yn ddibynnol ar gyflawniad o 6 mis o gyfnod prawf.

Profiad a chymwysterau: Gweler y Swydd Ddisgrifiad am fwy o wybodaeth.

I ymgeisio am y swydd, gyrrwch eich CV cyfredol gyda llythyr yn esbonio pam fod gennych sgiliau addas ar gyfer y swydd at **swyddi@barddas.com**

Cynhelir cyfweiliadau rhwng y 10-15 o Ionawr 2018 yn Aberystwyth.

Rydym yn gobeithio y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dechrau gweithio ym mis Chwefror 2018, fel bod cyfnod o drosglwyddo rhwng y golygydd presennol a'r ymgeisydd llwyddiannus. Mae rhywfaint o hyblygrwydd ynglyn â'r dyddiad dechrau ond os gwelwch yn dda, nodwch unrhyw anawsterau fel rhan o'ch cais.

Am sgwrs bellach, cysylltwch â Chydlynnydd Barddas ar iola@barddas.cymru neu trysorydd@barddas.cymru.

Manylion y Swydd

Cefndir

Sefydlwyd Y Gymdeithas Cerdd Dafod (Barddas) yn 1976 i warchod Cerdd Dafod a hybu barddoniaeth Gymraeg yn gyffredinol. Mae'r gymdeithas wedi'i chofrestru fel elusen, ac yn derbyn nawdd tuag at ei gweithgaredd gan y Cyngor Llyfrau. Mae'r prif weithgaredd yn cynnwys:

1. Comisiynu a chyhoeddi llyfrau ym maes barddoniaeth Gymraeg, dan faner 'Cyhoeddiadau Barddas';
2. Cyhoeddi y cylchgrawn 'Barddas' – 4 rhifyn y flwyddyn;
3. Hybu a chynnal digwyddiadau cenedlaethol a lleol y mae barddoniaeth yn ganolbwynt iddyn nhw, gan gynnwys Ymrysonau'r Eisteddfod Genedlaethol.

Bydd deilydd y swydd hon yn bennaf gyfrifol am y cyntaf o'r gweithgareddau hyn, yn atebol i Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas, gan gydweithio hefyd gyda 2 swyddog arall – y Cydlynnydd, a Golygydd y cylchgrawn 'Barddas'.

Mae rhagflaenydd y swydd wedi gofalu bod rhaglen gyhoeddi yn ei lle ar gyfer y flwyddyn sy'n dod, a bydd hynny'n cynnig cychwyn ardderchog i'r olynydd tra'n cymryd yr awenau, ac amser i gynllunio cyfrolau'r blynyddoedd dilynol.

Gweledigaeth

Dylai'r rhaglen gyhoeddi adlewyrchu'r bwrlwm sydd yn bodoli ym myd barddoniaeth Gymraeg. Dylai fod yn rhaglen gytbwys a'i ffocws ar farddoniaeth. Tra bod y farchnad ar gyfer llyfrau barddoniaeth yn gallu bod yn gyfyng ei hapêl, dylid anelu at gynyddu'r cyfartaledd gwerthiant trwy gynnwys cyfrolau eraill ehangach eu hapêl.

Teitl y swydd

Golygydd Creadigol Cyhoeddiadau Barddas

Disgrifiad o'r swydd

Cyfrifol am y Rhaglen Gyhoeddi o 8 llyfr y flwyddyn gan Gyngor Llyfrau Cymru . Y mae'r rhaglen i gwmpasu ystod eang o gyhoeddiadau sy'n adlewyrchu maes barddoniaeth Gymraeg gyda chydbwysedd rhwng casgliadau o farddoniaeth, astudiaethau a chyhoeddiadau ehangach eu hapêl.

Dyletswyddau, yn bennaf

- Rheoli rhaglen gyhoeddi'r Gymdeithas o 8 llyfr y flwyddyn.
- Cynllunio ymlaen ddwy neu dair blynedd.
- Cynnig syniadau am gyfrolau - trafod gyda'r Pwyllgor Gwaith, Cyngor Llyfrau Cymru ac awduron.
- Ceisio am grantiau ar gyfer pob cyfrol.
- Comisiynu awduron gan roi cyfarwyddyd pendant iddynt ynglŷn â chynnwys y llyfr, hyd y llyfr, nifer y lluniau, pwy yw'r farchnad, y math o ymdriniaeth sy'n addas, amserlen.
- Mewn ymgynghoriad gyda'r Trysorydd, cynllunio'n ariannol yn ofalus gyda phob cyfrol a rheoli cyllideb pob cyfrol.
- Goruchwyllo dyluniad a diwyg pob cyfrol yn cynnwys manylion technegol fel dewis y math o bapur, y ffont a maint y llyfr.
- Golygu pob cyfrol gyda gofal trwy:
 - olygu'r testun trwy dorri, ychwanegu at, ailstrwythuro neu aildrefnu'r testun;
 - wirio a safoni enwau lleoedd a phobl, ffeithiau, dyddiadau ac ati;
 - wirio sillafu, atalnodi, y fformat a'r arddull;
 - sicrhau fod yr holl ddeunydd ychwanegol megis lluniau a phenawdau lluniau, mapiau, llyfryddiaethau, cydnabyddiaethau, cyflwyniadau a rhageiriau, tudalennau cynnwys a rhif pob tudalen yn cael eu cynnwys a'u cyflwyno'n gywir.

- Llunio broliant i'r cyfrolau.
- Gwirio'r proflenni a'r copi terfynol.
- Llywio pob cyfrol drwy'r wasg.
- Darllen ac asesu llawysgrifau sydd heb eu comisiynu yng nghyd-destun gofynion y farchnad.
- Cydweithio gyda Cydlynedd Barddas i farchnata'r llyfrau fel bod y gwerthiant o leiaf yn cyrraedd y targedau gosodedig.
- Cyflawni tasgau eraill rhesymol a pherthnasol i waith y Gymdeithas yn achlysurol ar gais y Pwyllgor Gwaith.

Atebolrwydd

Cyflogir y Golygydd Creadigol gan 'Barddas – Y Gymdeithas Gerdd Dafod', ac mae'n atebol i'r Bwyllgor Gwaith.

Disgwylir iddo / iddi fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas (ac is-bwyllgorau fel bo angen) gan gyflwyno adroddiad ysgrifenedig o'i (g)weithgaredd i'r Pwyllgor.

Noddir y swydd a'r rhaglen gyhoeddi gan Gyngor Llyfrau Cymru a rhaid i'r Golygydd gyd-fynd ag amodau'r grant.

Cytundeb a Chyflog

Cytundeb parhaol. Dechrau: Chwefror 2018. Cyfnod prawf o 6 mis

Cyflog NJC 31 (£27,668 y flwyddyn) i NJC 36 (£31,601 y flwyddyn) pro rata am 21 awr . Noder mai polisi Cymdeithas Cerdd Dafod Barddas yw fod cyflogeion newydd yn cychwyn ar hicyn cyntaf y band.

Oriau Gwaith

Rhan Amser - 21 awr yr wythnos, i'w weithio yn ôl dymuniad yr ymgeisydd. Rydym yn gweithredu system gweithio hyblyg sy'n golygu y gall person weithio oriau hyblyg yn ystod y dydd. Bydd angen bod yn barod i weithio oriau anghymdeithasol yn achlysurol, a bydd system 'toil' yn cael ei weithredu ar gyfer yr achlysuron hyn.

Gwyliau

Cynigir y canlynol fel gwyliau gyda chyflog (pro rata ar gyfer yr oriau gwaith):

- 6 wythnos o wyliau (yn cynnwys 8 gŵyl banc statudol)

Trefniadau Teithio

Telir costau teithio o 45c y filltir.

Pensiwn

Cynigir cynllun pensiwn gyda chyfraniad o 5% gan y cyflogwr gan ddisgwyl i'r cyflogai gyfrannu 3% cyfatebol.

Datblygu a Hyfforddi

Rydym yn ymroddedig i ddatblygu a hyfforddi ei staff er mwyn gwella eu sgiliau, ehangu eu gwybodaeth a gwella'r gwasanaeth a gynigir gan y cwmni. Cynhelir hyfforddiant rheolaidd i olygyddion gan CLLC ac mae'n ofynnol i'r golygyddion y noddir eu swyddi ei fynychu.

Buddion Eraill

- Cynllun gweithio'n hyblyg sy'n cynnwys fflecsi
- Bydd y cyflogwr yn darparu offer a meddalwedd priodol ar gyfer cyflawni'r swydd.

Manyleb Person

Sgiliau / Profiad	Hanfodol	Dymunol
Dealltwriaeth a diddordeb ym myd llenyddiaeth Gymraeg, ac mewn barddoniaeth Gymraeg yn benodol.	✓	
Syniadau gwreiddiol a chreadigol ynglŷn a chyhoeddi barddoniaeth Gymraeg a deunydd llenyddol cysylltiedig.	✓	
Dealltwriaeth dda o sut i hyrwyddo rhaglen gyhoeddi. Gymraeg o fewn y byd cyhoeddi Cymreig.	✓	
Y gallu i gydweithio'n agos a rhagweithiol gyda chydweithwyr o fewn Cymdeithas Cerdd Dafod Barddas ac awduron a gweisg a Chyngor Llyfrau Cymru (CLIC)	✓	
Profiad o waith golygu a pharatoi gwaith manwl a chywir	✓	
Sgiliau Cymraeg cryf (ar lafar ac yn ysgrifenedig) a gallu i siarad ac ysgrifennu'n Saesneg.	✓	
Profiad o weithio gyda meddalwedd golygu	✓	
Y gallu i reoli cyllideb cyhoeddi (gyda chefnogaeth)	✓	
Y gallu i baratoi adroddiadau cynnydd a monitro.	✓	
Sgiliau gweinyddu a threfnu arbennig.	✓	
Y gallu i drefnu amser a gweithio i derfynau amser heriol.	✓	
Y gallu i weithio yn annibynnol heb oruchwyliaeth	✓	
Personoliaeth gynnes ac agored er mwyn gallu cydlynu gydag unigolion amrywiol		✓
Profiad o ddelio gyda'r Cyngor Llyfrau a phrosesau gwneud ceisiadau am grant.		✓
Deall rheolau cerdd dafod – y mesurau caeth		✓

Addysg a chymwysterau	Hanfodol	Dymunol
Lefel A neu uwch mewn Cymraeg	✓	
Cymhwyster rheoli prosiect (neu brofiad cyfatebol)		✓
Cymhwyster ym maes cyhoeddi		✓